# Y CYNGOR

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd am 13.00 ar 26 TACHWEDD 2024, trwy Microsoft Teams.**

Yn bresennol: Ms Meri Huws, Cadeirydd y Cyngor (Cadeirydd); Yr Athro Jon Timmis, Is-ganghellor;
Mr Paul Bevan; Yr Athro Sarah Davies; Ms Kate Eden; Ms Kylie Evans; Yr Athro Simon Green; Ms Elain Gwynedd, Swyddog Diwylliant Cymreig a Llywydd UMCA; Yr Athro Angela Hatton, Dirprwy Is-Ganghellor; Dr Aloysius Igboekwu; Mr Dan Richards; Ms Rhuanedd Richards; Mr Arwel Thomas; Mr Mark Tweed; Ms Jane Usherwood; Ms Claire Vaughan; a Mr Bayanda Vundamina, Llywydd Undeb Aberystwyth.

Yn gweinyddu: Mr Simon Crick, Cyfarwyddwr Cyllid a Chynllunio; Yr Athro Anwen Jones, Dirprwy Is-Ganghellor (Addysg a Phrofiad y Myfyrwyr) (ar gyfer cofnodion 41 a 50); Dr Kim Braddick, Dirprwy Gofrestrydd (ar gyfer cofnod 41) Mrs Jean Jones, Pennaeth Swyddfa'r Is-Ganghellor; Mrs Sharon Lilley, Cyfarwyddwr Dros Dro Adnoddau Dynol; Dr Gwawr Taylor, Ysgrifennydd y Brifysgol a Chyfarwyddwr y Gymraeg; a Mr Steve Thomas, Cyfarwyddwr Cyfathrebu a Chysylltiadau Allanol.

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Yusuf Ibrahim.

**16. MATERION A GODWYD GAN Y CADEIRYDD**

Nodwyd bod y cyfarfod wedi'i symud i Microsoft Teams o ganlyniad i'r tywydd garw.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Yusuf Ibrahim.

**17. GWRTHDARO BUDDIANNAU**

Ni chafwyd datganiad ynglŷn â gwrthdaro buddiannau yng nghyswllt y materion i'w hystyried yn ystod y cyfarfod.

**18. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

DERBYNIWYD

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Hydref 2024 (COU2425-020).

**PENDERFYNWYD**

Cadarnhawyd bod y cofnodion yn gofnod cywir o’r hyn a drafodwyd.

**19. MATERION YN CODI O'R COFNODION**

DERBYNIWYD

Cofnodydd yn nodi’r cynnydd a wnaed wrth symud yn eu blaen y penderfyniadau a’r camau gweithredu y cytunwyd arnynt yng nghyfarfod diweddaraf y Cyngor, ac unrhyw gamau na chawsant eu cyflawni o gyfarfodydd blaenorol (COU2425-021).

Mae'r camau gweithredu a oedd i fod i gael eu cwblhau erbyn mis Hydref 2024 wedi'u cwblhau, ac maent wedi'u cofnodi yn y tabl 'camau caeëdig' er cyflawnder. Rhoddwyd diweddariad i'r aelodau ar y materion a oedd heb eu cyflawni.

NODWYD

Nododd yr aelodau'r diweddariadau am y camau gweithredu agored a chaeëdig a CHYTUNWYD ar yr argymhellion.

Cynhelir sesiwn friffio ar sicrwydd academaidd yn ystod blwyddyn academaidd 2024-2025, mewn trafodaethau gyda'r Cadeirydd.

Roedd yr aelodau hefyd yn dymuno derbyn sesiwn friffio ar Ganolfan y Celfyddydau cyn diwedd y flwyddyn academaidd.

**20. PENDERFYNIADAU A WNAED RHWNG CYFARFODYDD**

Dim i'w nodi.

**21. ADRODDIAD YR IS-GANGHELLOR**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan yr Athro Jon Timmis, Is-Ganghellor (COU2425-023)

NODWYD

1. Roedd tair prif ran i'r adroddiad: adroddiad yn amlygu'r prif bwyntiau; adroddiad cynllunio a chofrestriadau myfyrwyr; ac adroddiad ynglŷn â chyfathrebu.

2. Mae'r Athro Nigel Holt wedi'i benodi yn Ddirprwy Is-Ganghellor Cyswllt: Rhyngwladol. Bydd yn dechrau yn y swydd ym mis Rhagfyr 2024.

3 Roedd data'r cyfrifiad ar gyfer denu myfyrwyr ym mis Tachwedd yn gadarnhaol yn erbyn y rhagolygon. Er bod heriau, roedd y Brifysgol wedi gwarchod ei sefyllfa yn dda, yn enwedig mewn perthynas â myfyrwyr o'r DU.

4. Mae'r amgylchedd ariannu yn heriol gyda thueddiadau sy'n peri pryder ar draws y sector, yn enwedig mewn perthynas â myfyrwyr rhyngwladol. Mae'r gyfradd cyfranogiad yng Nghymru yn isel iawn, yn enwedig o gymharu â gwledydd eraill, ac mae'n ymddangos ei bod yn gostwng. Mae llywodraeth San Steffan yn trafod cynyddu ffioedd, er nad yw Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei bwriad eto ynglŷn ag unrhyw gynnydd posibl mewn ffioedd. Fodd bynnag, byddai unrhyw gynnydd posibl mewn ffioedd yn debygol o gael ei wario'n gyfan gwbl i fynd i'r afael â'r cynnydd mewn cyfraniadau Yswiriant Gwladol.

5. Mae trafodaethau yn mynd rhagddynt gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU mewn perthynas â'r rôl y mae prifysgolion yn ei chwarae. Mae ehangu mynediad, cenhadaeth ddinesig, a'r cysylltiad â thwf rhanbarthol a chyfleoedd gwaith yn feysydd allweddol o gyfraniad ac mae angen eu mynegi'n glir – ar lefel sefydliad, ond hefyd ar draws y sector. Mae rôl addysg bellach, a sut mae'n cysylltu ag addysg uwch yn fater allweddol i'w ystyried.

6. Cadarnhaodd swyddogion y byddai'r cynnydd yn yr Yswiriant Gwladol yn ychwanegu £1.2m ychwanegol at y diffyg, gan nad oedd hyn wedi'i gyllidebu.

7. Mae angen arbedion o oddeutu £5-£6m o hyd er mwyn bod yn ariannol gynaliadwy, a byddai angen newid y model gweithredu. Mae tua 100 o rolau wedi'u dileu o'r strwythur o ganlyniad i'r cynlluniau diswyddo gwirfoddol. Atgoffwyd yr aelodau o'r broses ddiswyddo y cytunwyd arni'n flaenorol. Mae rhanddeiliaid yn cael eu hysbysu am gynigion a newidiadau sylweddol. Nododd yr aelodau yr heriau i'r holl staff yn ystod y cyfnod hwn.

**PENDERFYNWYD**

8. Nodwyd yr adroddiad.

**22. ADRODDIAD GAN UNDEB ABERYSTWYTH**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Bayanda Vundamina, Llywydd Undeb Aberystwyth (COU2425-024)

NODWYD

1. Mae Undeb y Myfyrwyr wedi bod yn cynnal adolygiad o rolau ei swyddogion llawn amser, gyda'r bwriad o leihau i lai na phump, sef nifer y swyddi llawn amser ar hyn o bryd. Bydd y Bwrdd yn cytuno ar benderfyniad yr wythnos nesaf a bydd pob myfyriwr yn pleidleisio ar y cynigion.

2. Mae'r Bwrdd Cynghori Myfyrwyr Rhyngwladol wedi gweithio'n dda. Mae'r Undeb yn gweithio'n agos gyda'r Gwasanaethau i Fyfyrwyr ac yn gobeithio y bydd yn cael effaith gadarnhaol ar y gymuned myfyrwyr rhyngwladol.

3. <u>UMCA</u><br>Daeth dros 700 o fyfyrwyr o bob cwr o'r DU ynghyd yn Aberystwyth ar gyfer y ddawns ryng-golegol. Bydd yr Eisteddfod Ryng-golegol hefyd yn cael ei chynnal yn Aberystwyth ar 1 Mawrth 2025.

4. Yn ystod yr adolygiad a'r ymgynghoriad dilynol ar rolau swyddogion, roedd UMCA yn pryderu am ei ddyfodol, a lansiwyd ymgyrch i achub UMCA. Cynhaliodd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr drafodaeth a phleidleisiodd o blaid cadw rôl llywydd UMCA fel swyddog sabothol llawn amser. Mae gwaith eisoes yn mynd rhagddo i atgyfnerthu'r neges bod myfyrwyr o Gymru yn cael eu gwerthfawrogi a'u bod yn rhan greiddiol o ddyfodol y Brifysgol.

5. Eglurwyd bod Undeb y Myfyrwyr yn sefydliad annibynnol i'r Brifysgol, gyda'i Fwrdd Ymddiriedolwyr ei hun.

6. Nododd yr aelodau hefyd y gwaith cadarnhaol sy'n digwydd yng nghyd-destun profiad y myfyrwyr a chroesawyd y gwaith a'r diweddariad.

**PENDERFYNWYD**

7. Nodwyd yr adroddiad.

**23. MATERION ARIANNOL**

1. <u>Diweddariad ar y Cyfrifon Rheoli</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Mr Simon Crick, Cyfwrwyddwr Cyllid a Chynllunio, Mrs Rhian Linehan, Partner Busnes Cyllid, a Mr Stephen Harrison, Partner Busnes Cyllid (COU2425-025).

NODWYD

1. Mae cynnydd da yn cael ei wneud yng nghyd-destun yr arbedion targed, gyda £13m o arbedion wedi'u nodi. Fel yr amlinellwyd yn adroddiad yr Is-Ganghellor, mae'r targed yn symud i adlewyrchu'r amgylchedd allanol. Roedd yr adroddiad yn amlinellu rhai amrywiadau i'r gyllideb bresennol, ac mae gwaith yn mynd rhagddo i fynd i'r afael â'r amrywiadau hynny. Mae angen £1.4m pellach o arbedion i gyflawni diffyg o £3m. Mae'r ffocws bellach ar nodi'r arbedion ar gyfer gweddill y flwyddyn ac adolygu'r sefyllfa ariannol ar gyfer 2025-26.

2. Mae’r gwaith o gasglu dyledion yn gwella ar ôl cyflwyno newidiadau i’r prosesau. Mae lefel o hyder hefyd yn y sefyllfa arian parod, ond mae wedi'i gosod yn erbyn amgylchedd gweithredu heriol iawn.

3. Rhoddwyd amlinelliad i’r Cyngor o’r materion a ystyriwyd gan y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad, a nodwyd bod y dirwedd allanol yn newid yn gyflym. Amlinellodd swyddogion y gwahaniaeth rhwng yr elfennau o fewn rheolaeth y Brifysgol, a’r ffactorau allanol. Mae cynllunio senarios hefyd wedi'i ymgorffori yn y rhagdybiaethau cynllunio, gydag asesiad o risg a'r rheolaethau y gellir eu rhoi ar waith.

4. Mae’r codiad cyflog wedi’i ohirio yn y flwyddyn ariannol hon. Dywedwyd ar y pryd fod hwn yn fesur eithriadol. Tynnodd swyddogion sylw at risg mewn perthynas â chwyddiant ac effaith anhysbys hynny ar gyllideb 2025-26. Mae angen cynnwys y materion hyn yn y gyllideb a sicrhau bod yr arbedion yn cael eu cyflawni.

5. Nododd yr aelodau y ddyled y llwyddwyd i’w hadennill, ond holwyd faint o'r dyledion hirdymor oedd yn debygol o gael eu hadennill. Amlinellwyd y dull adennill dyledion, a nodwyd y byddai dadansoddiad pellach yn cael ei gynnal a'i rannu gyda'r Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad [**GWEITHREDU:** Prif Swyddog Cyllid].

6. Croesawyd y cynnydd mewn diwrnodau hylifedd, a thrafododd aelodau'r angen i ystyried y cynllun ad-dalu ar gyfer y gwaddolion, ochr yn ochr â'r lefelau risg. Nodwyd hyn hefyd yng nghyd-destun buddsoddi yn yr Hen Goleg a data ynghylch adenillion ar fuddsoddiadau, gan gynnwys y gwaith strategol sy'n cael ei wneud, neu sydd wedi'i oedi o ganlyniad. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar Gynlluniau Ariannol y Brifysgol, a fydd yn canolbwyntio'n gryf ar lefel y refeniw, gwarged a chynhyrchu refeniw. Bydd hyn hefyd yn edrych ar sut y gall y brifysgol ddefnyddio unrhyw arian parod dros ben i fynd i'r afael â heriau etifeddiaeth, yn benodol buddsoddi yn yr ystâd ddigidol a ffisegol.

7. Trafododd yr aelodau'r materion a godwyd yn y papur gan Universities UK mewn perthynas â heriau hylifedd tymor byr, a'i berthnasedd i Brifysgolion yng Nghymru. Nodwyd bod Addysg Uwch wedi'i ddatganoli i Lywodraeth Cymru, a

bod ystyriaethau gwleidyddol y dylid eu hystyried mewn perthynas â dogfennau polisi a dogfennau briffio.

8. Gofynnodd yr aelodau am sefyllfa ffermydd y brifysgol a'r gweithgareddau masnachol. Nodwyd bod trafodaethau ar y gweill mewn perthynas â'r ffermydd, i bennu eu rôl yn y brifysgol, ac o ganlyniad sicrhau bod cyllidebau realistig a chynaliadwy yn cael eu pennu. Mae cynlluniau ar y gweill gyda'r Rheolwr Ffermydd i wella effeithlonrwydd a chynhyrchiant y fferm, gan leihau lefel y risg. Mae angen lefel o fuddsoddiad i sicrhau bod y seilwaith yn addas i'r diben.

9. Trafododd yr aelodau breswylfeydd y brifysgol, gan nodi bod llety yn llawn am y flwyddyn. Mae swyddogion yn adolygu cyfleoedd i adnewyddu rhagor o lety. Er bod nifer uwch o fyfyrwyr, ni chafodd hyn yr un effaith ar y cyllid oherwydd y contract sydd ar waith ar gyfer Pentre Jane Morgan. Credir bod y gyllideb wedi'i gosod yn briodol, a rhagwelir y bydd y Brifysgol yn cwrdd â'r gyllideb.

10. Trafododd yr aelodau'r cysylltiad rhwng cyflwr yr ystâd a chydymffurfiaeth iechyd a diogelwch. Gofynnodd aelodau am ragor o wybodaeth am y gwariant cyfalaf a'r archwaeth risg [**GWEITHREDU**: Prif Swyddog Cyllid]. Nodwyd bod proses newydd ar waith i bennu gwariant cyfalaf, gyda'r nod o asesu risg y gwaith sydd angen ei wneud a blaenoriaethu yn unol â hynny. Mae'r gwariant cyfalaf wedi bod yn isel oherwydd yr heriau o ran arian parod. Mae gwaith ar y gweill i ddeall cyflwr yr ystâd a'r modd y caiff ei defnyddio, a fydd yn cael ei drafod gan y Weithrediaeth ym mis Rhagfyr. Bydd archwaeth risg y Brifysgol yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd a'r Cyngor.

**PENDERFYNWYD**

11. Nodwyd yr adroddiad gan yr aelodau.

2. <u>Datganiadau Ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2024</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Mr Simon Crick, Cyfarwyddwr Cyllid a Chynllunio a Chyfathrebu a Materion Cyhoeddus (COU2425-026).

NODWYD

1. Amlinellwyd y camau gweithredu allweddol a'r goblygiadau ar y daflen glawr, ond roedd swyddogion yn fodlon gyda'r broses archwilio a'r canlyniad. Rhannwyd adborth cadarnhaol gan archwilwyr allanol, gyda rhai gwelliannau sylweddol yn y ffyrdd o weithio rhwng y ddau sefydliad. Diolchwyd i'r tîm Cyllid am eu gwaith.

2. Ychydig iawn o ganfyddiadau ac argymhellion a gafwyd gan KPMG. Nododd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd fod hwn yn ganlyniad cadarnhaol, yn enwedig yng nghyd-destun y pwysau presennol ar y sefydliad a'r sector. Roedd yr adroddiad felly yn hynod gadarnhaol a dylai roi sicrwydd i'r Cyngor bod amgylchedd rheoli da.

**PENDERFYNWYD**

3. Cymeradwyodd yr Aelodau'r Adroddiad Blynyddol a'r Datganiadau Ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2024.

3. Llythyr a Memorandwm Rheoli'r Archwilwyr Allanol

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Mr Simon Crick, Cyfarwyddwr Cyllid a Chynllunio (COU2425-027).

**PENDERFYNWYD**

Cymeradwywyd Llythyr a Memorandwm Rheoli'r Archwilwyr Allanol.

4. Llythyr Sylwadau at yr Archwilwyr Allanol

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Simon Crick, Cyfarwyddwr Cyllid a Chynllunio a Mathew Clarke, Rheolwr Trethi a Buddsoddiadau (COU2425-027).

**PENDERFYNWYD**

Cymeradwywyd y Llythyr Sylwadau at yr Archwilwyr Allanol.

5. Adroddiad Blynyddol a Barn yr Archwilwyr Mewnol

DERBYNIWYD

Adroddiad gan TIAA (COU2425-029).

NODWYD

1. Cafodd y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd sesiwn fanwl ar archwilio mewnol yn ei gyfarfod ym mis Medi 2024.

2. Mae gwaith wedi'i wneud i sicrhau bod archwilio mewnol yn cyd-daro â risgiau allweddol y sefydliad. Trafododd yr Aelodau yr adroddiad cadarnhaol, yn enwedig yn erbyn yr amgylchedd ariannol heriol. Gofynnwyd i TIAA sicrhau bod yr adroddiadau yn gynrychiolaeth deg, a chadarnhawyd eu bod yn fodlon â'r asesiad cyffredinol. Nodwyd bod hyn hefyd yn adlewyrchu'r amgylchedd rheoli a amlygwyd hefyd yn asesiad KPMG.

3. Trafododd yr aelodau'r sgôr sicrwydd cyfyngedig ar gyfer parhad busnes, gan nodi bod y cyd-destun yn hanfodol, gan ei fod yn faes sy'n datblygu a oedd yn dymuno defnyddio'r broses archwilio mewnol fel profiad dysgu. Gofynnwyd i'r cyd-destun hwn gael ei adlewyrchu yn yr adroddiad archwilio, er mwyn sicrhau bod y meincnodau yn cael eu mynegi'n glir. Rhannwyd yr amserlen ar gyfer cymeradwyo a gweithredu polisïau a hyfforddiant, a bydd y camau gweithredu o'r archwiliad mewnol yn cael eu monitro a'u hadrodd i'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd.

**PENDERFYNWYD**

4. Cymeradwywyd yr adroddiad.

6. Datgeliad Trosolwg TRAC

DERBYNIWYD

Adroddiad gan David Haywood, Partner Busnes Cyllid Ymchwil (COU2425-030).

NODWYD

1. Y sicrwydd sylweddol a dderbyniwyd gan yr ymchwiliad archwilio mewnol.

**PENDERFYNWYD**

2. Nodwyd y broses.

7. Datgeliad Caethwasiaeth Fodern

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Lee Pereira, Rheolwr Caffael (COU2425-031).

**PENDERFYNWYD**

Cymeradwywyd y Datgeliad Caethwasiaeth Fodern.

8. Ymddiriedolwr a enwebwyd gan y Cyngor i Gynllun Pensiwn ac Aswiriant Prifysgol Aberystwyth (AUPAS)

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Matthew Clarke, Rheolwr Trethi a Buddsoddiadau (COU2425-032).

NODWYD

1. Enwebwyd George Ashworth, cyn aelod o'r Cyngor, i gynrychioli'r Cyngor ar Fwrdd Ymddiriedolwyr AUPAS. Fodd bynnag, nid yw George Ashworth bellach yn aelod o'r Cyngor, ac mae angen ystyried yr aelodaeth.

2. Mae Ymddiriedolwyr AUPAS yn adolygu eu heffeithiolrwydd ym mlwyddyn academaidd 2024-25 ac mae'n debygol y bydd newidiadau i'w lywodraethiant, a fydd yn cael eu rhannu â'r Cyngor maes o law.

3. Bydd argymhelliad yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Enwebiadau, a fydd yn adolygu matrics sgiliau'r Cyngor ac yn cyflwyno cynnig i'r Cyngor.

**PENDERFYNWYD**

4. Bydd George Ashworth yn parhau fel enwebai'r Cyngor tan ddiwedd y flwyddyn academaidd, a hyd nes y bydd yr Ymddiriedolwyr wedi cynnal yr adolygiad effeithiolrwydd. Byddai cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu trefnu gyda Chadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu a Diwylliant i sicrhau cyfathrebu effeithiol rhwng enwebai'r Cyngor a'r Cyngor.

9. Gweithred Ddiwygio AUPAS

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Matthew Clarke, Rheolwr Trethi a Buddsoddiadau (COU2425-033).

NODWYD

1. Gofynnwyd am gyngor cyfreithiol i sicrhau bod gweithgareddau gweithredol yn adlewyrchu'r Weithred.

**PENDERFYNWYD**

2. Cymeradwywyd y Weithred Ddiwygio a'r defnydd o sêl y Brifysgol, fel y bo'n briodol.

**24. MATERION LLYWODRAETHU**

1. <u>Newidiadau i enwau cyfadrannau ac Ordinhadau</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Dr Patrick Finney, Dirprwy Is-Ganghellor, y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol (Arweinydd y Prosiect); Sharon Lilley, Cyfarwyddwr Dros Dro Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol; a Dr Gwawr Taylor, Ysgrifennydd y Brifysgol a Chyfarwyddwr y Gymraeg (COU2425-034).

NODWYD

1. Argymhellodd staff a myfyrwyr fod yr enwau'n fyr ac yn gryno. Nodwyd hefyd nad oedd myfyrwyr yn gyffredinol yn teimlo cysylltiad â chyfadrannau ond yn ymwneud ar lefel adran neu bwnc yn lle hynny.

2. Anaml y defnyddir enwau cyfadrannau mewn deunydd marchnata, ac ni fyddai'r newidiadau hyn yn cael effaith ar weithgareddau marchnata a denu myfyrwyr y Brifysgol.

3. Mae'r cynnig wedi'i ystyried a'i argymell i'r Cyngor i'w gymeradwyo gan y Senedd a'r Pwyllgor Llywodraethu a Diwylliant.

4. Nododd Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu a Diwylliant fod y pwyllgor wedi cael sicrwydd bod proses ymgysylltu dda wedi'i chynnal a chroesawodd yn arbennig yr adborth gan staff a myfyrwyr a oedd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD**

5. Cymeradwyodd y Cyngor enwau Cyfadran y Dyniaethau, a Chyfadran y Gwyddorau.

2. <u>Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd i'r Cyngor</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Dr Gwawr Taylor, Ysgrifennydd y Brifysgol a Chyfarwyddwr y Gymraeg, a Helen Davies, Swyddog Llywodraethu (COU2425-035).

NODWYD

1. Tynnwyd sylw’r Cyngor at y gwaith sy’n mynd rhagddo ar y gofrestr risg.

**PENDERFYNWYD**

2. Cymeradwywyd yr adroddiad blynyddol gan yr aelodau.

3. <u>Adroddiad Blynyddol ar y Pwyllgor Taliadau</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Dr Gwawr Taylor, Ysgrifennydd y Brifysgol a Chyfarwyddwr y Gymraeg (COU2425—036).

NODWYD

1. Mae cyfrifoldebau penodol yn cael eu dirprwyo i'r Pwyllgor Taliadau ac roedd yr adroddiad yn tynnu sylw at y penderfyniadau a ystyriwyd gan y pwyllgor a sut y gwnaed y penderfyniadau.

2. Bydd y pwyllgor yn ystyried pryd y gwneir penderfyniadau allweddol, a sut y bydd amcanion tîm y Weithrediaeth yn cyd-fynd â Strategaeth y Brifysgol a blaenoriaethau'r brifysgol.

3. Cadarnhawyd nad yw'r Is-Ganghellor yn aelod o'r Pwyllgor Taliadau ac nad yw'n bresennol pan drafodir ei dâl.

**PENDERFYNWYD**

4. Nodwyd yr adroddiad.

4. <u>Arolwg o Effeithiolrwydd Llywodraethu</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Dr Gwawr Taylor, Ysgrifennydd y Brifysgol a Chyfarwyddwr y Gymraeg (COU2425-037).

NODWYD

1. Byddai rhagor o wybodaeth yn cael ei cheisio ar ba feysydd o'r strwythur llywodraethu y mae angen eu diwygio, ac is-gwmnïau'r Brifysgol.

2. Dywedodd yr aelodau fod yr adroddiad yn cynnwys barn, heb gasgliadau helaeth yn seiliedig ar ffeithiau. Nid oedd bob amser yn glir ychwaith pam y gwnaed argymhelliad, a pha gamau yr oedd angen eu cymryd. Nododd yr Aelodau y byddai cyfeirio at arfer gorau fel meincnod yn ddefnyddiol.

3. Bydd y Pwyllgor Llywodraethu a Diwylliant yn craffu ar y gwaith a'r cynnydd yn erbyn y camau gweithredu ar ran y Cyngor. Bydd angen i'r Cyngor ystyried yr argymhellion a phenderfynu a ydynt yn cael eu gweithredu ai peidio, gyda chyfiawnhad dros y penderfyniadau hynny.

4. Dywedodd yr Aelodau nad oedd yr adroddiad yn feirniadol o'r trefniadau presennol, ac y gallai'r argymhellion gryfhau'r hyn sydd ar waith ar hyn o bryd – gan nodi bod y mwyafrif o'r argymhellion yn feysydd a nodwyd yn flaenorol fel rhai sydd angen gwaith, ac mewn rhai achosion, megis rhaglenni cynefino, bod gwaith eisoes ar y gweill i fynd i'r afael â'r materion hyn.

**PENDERFYNWYD**

5. Unwaith y bydd yr adroddiad terfynol yn barod, dylid rhannu'r argymhellion gyda'r Cyngor, gan nodi'r lefelau priodol o ddirprwyo.

6. Dylid rhannu'r adborth trwy Ysgrifennydd y Brifysgol, gan ofyn yn benodol am fwy o eglurder ar gamau gweithredu; gwybodaeth ychwanegol am is-gwmnïau; a thynnu sylw at feysydd o arfer da.

5. <u>Datganiad Sicrwydd Blynyddol a Chynllun Ffioedd a Mynediad</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Dr Gwawr Taylor, Ysgrifennydd y Brifysgol a Chyfarwyddwr y Gymraeg (COU2425-038).

NODWYD

1. Mae’r dogfennau yn rhan o’r datganiad sicrwydd blynyddol, sy'n dangos ein prosesau ac yn cadarnhau gwybodaeth allweddol.

2. Cyn ei gyflwyno, bydd rhagor o wybodaeth yn cael ei darparu mewn perthynas ag ystadegau hyfforddiant Prevent. Darperir y wybodaeth lefel uchel yn yr adroddiad blynyddol.

3. Holodd yr aelodau am ganran y graddau dosbarth cyntaf, a'r cynnydd cyson. Yng ngoleuni diddordeb y cyfryngau mewn chwyddiant graddau, cwestiynwyd a chraffwyd ar hyn. Nodwyd bod hyn yn adlewyrchiad cadarnhaol ar waith lleol mewn adrannau allweddol a oedd wedi bod yn wannach yn hanesyddol, ac felly roedd y datblygiad hwn yn cael ei ystyried yn ganlyniad cadarnhaol.

**PENDERFYNWYD**

4. Cymeradwywyd yr adroddiad gan yr aelodau a chytunwyd i’w rannu gyda Medr unwaith y bydd y data ar hyfforddiant Prevent yn gyflawn.

6. <u>Enwebiadau am Raddau er Anrhydedd</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Helen Davies, Swyddog Llywodraethu, a Dr Gwawr Taylor, Ysgrifennydd y Brifysgol a Chyfarwyddwr y Gymraeg (COU2425-039).

NODWYD

1. Nododd Rhuanedd Richards wrthdaro buddiannau oherwydd bod gan y BBC gontractau cyflogaeth gyda nifer o'r enwebeion a gadawodd y drafodaeth.

2. Agorodd y broses enwebu yn gynharach eleni, gan arwain at y gronfa ehangach o enwebeion.

3. Nododd Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu a Diwylliant fod y pwyllgor yn cefnogi'r cynigion a nododd yr unigolion amrywiol a gynigiwyd i'r Cyngor.

4. Croesawodd yr aelodau'r cynnig i roi graddau er anrhydedd yn ogystal â chymrodoriaethau.

**PENDERFYNWYD**

5. Cymeradwywyd yr argymhellion ar gyfer graddau er anrhydedd.

## 25. DATGANIAD SICRWYDD ANSAWDD

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Dr Kim Bradick, Dirprwy Gofrestrydd a'r Athro Anwen Jones (COU2425-041).

NODWYD

1. Tynnwyd sylw'r Cygnor at ddau faes risg, sef prosesau wedi'u hawtomeiddio a datblygu systemau ar-lein, a gall y risgiau hyn effeithio ar feysydd eraill fel yr amlinellir yn yr adroddiad. Mae yna hefyd dwf a newid yn y ffordd y mae myfyrwyr yn ymwneud â system gwynion y Brifysgol, ac mae lefel o risg yn gysylltiedig â'r twf yn y galw yn y maes hwn.

2. Mae rhai risgiau wedi'u marcio'n 'wyrdd', ond maent yn risgiau byw. Mae'r Brifysgol yn ceisio cynnal perfformiad neu wella yng nghyd-destun yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr (ACF), a thablau cynghrair, gan nodi mai ychydig iawn o gyfle sydd i wella mewn perthynas â'r ACF. Mae monitro blynyddol ac arolygiadau adrannol yn risg fyw, ond mae swyddogion yn ymwneud â'r mater.

3. Mae'r cynllun Addysg a Phrofiad y Myfyrwyr yn amlinellu'r gwaith sydd ar y gweill ac a fydd yn cael ei wneud mewn perthynas â chyflogadwyedd; iechyd meddwl; trais rhywiol ac aflonyddu rhywiol; ac addasiadau i asesiadau myfyrwyr.

4. Mae newidiadau wedi'u gwneud i strwythurau pwyllgorau a'r llawlyfr Ansawdd Academaidd; adolygiad Sicrhau Ansawdd allanol; a chanlyniad yr adroddiadau archwilio mewnol; a'r datganiadau canlyniadau gradd.

5. Cwestiynodd yr aelodau y dadansoddiad o risg, a'r dirywiad ymddangosiadol. Nododd swyddogion ei fod yn bryder, ac mae angen gwaith a buddsoddiad ar systemau'r Brifysgol sy'n effeithio ar sicrhau ansawdd. Holodd yr Aelodau ynghylch lefel y buddsoddiad a'i flaenoriaeth ochr yn ochr â phrosiectau eraill. Dywedodd swyddogion y bydd gwariant yn cael ei dargedu ar brosesau allweddol, ond mae'n brosiect mwy, ac mae cyllid wedi'i nodi.

6. Mae asiantaeth allanol yn ymdrin â chwynion myfyrwyr i gefnogi'r gwaith. Mae angen adolygu'r trefniadau, ac mae rheoli'r llwyth gwaith presennol yn her. Mae Adnoddau Dynol wedi bod yn trafod staffio ac adnoddau presennol gyda phob adran, gan edrych yn arbennig ar yr effaith ar adrannau i ddeall effaith Diswyddo Gwirfoddol, a sicrhau bod gwaith yn cael ei gynllunio yn unol â hynny.

7. Cadarnhaodd swyddogion fod y maes lle gwelwyd cynnydd yn ymwneud â disgyblaeth myfyrwyr a chwynion yn hytrach nag apeliadau academaidd. Bu'r aelodau hefyd yn trafod effaith y newidiadau i swyddogion sabothol Undeb y Myfyrwyr ar y risg, ac roedd angen gwaith pellach ar fesurau lliniaru i leihau lefel y risg.

8. Cafwyd trafodaeth ynghylch colli Addysg Gychwynnol i Athrawon a'r risg cysylltiedig i enw da, gan nodi na chafodd ei amlygu fel risg neu fater allweddol. Nodwyd ei fod

wedi'i gynnwys o dan ddarpariaeth y gyfadran, ac na thynnwyd sylw'r Brifysgol at unrhyw awgrymiadau ynghylch newidiadau i ddulliau mewn perthynas â sicrwydd neu welliant. Hysbyswyd y Bwrdd Academaidd o'r sefyllfa.

**PENDERFYNWYD**

9. Cytunwyd y byddai risgiau lefel uchel mewn perthynas ag ansawdd a sicrwydd Academaidd yn cael eu hadrodd i'r Cyngor trwy'r Senedd a'r Is-Ganghellor mewn modd amserol.

10. Nodwyd y datganiadau mewn perthynas â Sicrhau Ansawdd.

**26. ADRODDIADAU / DATGANIADAU BLYNYDDOL**

1. Datganiad Blynyddol ar Gyflogau

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Sharon Lilley, Cyfarwyddwr Dros Dro Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol (COU2425-042).

NODWYD

1. Nododd y Pwyllgor Llywodraethu a Diwylliant y cyswllt rhwng y Cynllun Cyfraniad Effeithiol a chynlluniau'r Weithrediaeth i adolygu'r fformat.

**PENDERFYNWYD**

2. Cymeradwywyd y Datganiad Blynyddol ar Gyflogau.

2. Adroddiad Blynyddol ar Iechyd a Diogelwch.

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Clare Williams, Rheolwr Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd (COU2425-043).

NODWYD

1. Amlygwyd y gweithgarwch a ddangoswyd yn yr adroddiad. Nododd yr aelodau yr awydd i symud o ddull ymatebol, ond bod angen gwaith sylweddol i sicrhau y gellir cymryd safbwynt rhagweithiol a sicrhau diwylliant diogelwch da.

2. Trafodwyd risgiau a materion yn ymwneud ag ystadau, yn benodol Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus (RIDDOR). Nododd yr aelodau'r angen i flaenoriaethu ond cawsant sicrwydd bod gwaith ar y gweill i fynd i'r afael â rhai o'r heriau a'u bod yn cael eu huwchgyfeirio a'u hamlygu'n briodol i'r Cyngor, trwy'r Pwyllgor Llywodraethu a Diwylliant

**PENDERFYNWYD**

3. Dylid darparu rhagor o wybodaeth ar y gwaith sydd wedi'i wneud, a beth nad yw wedi'i wneud, yn benodol mewn perthynas â diogelwch tân [**GWEITHREDU**: Cyfarwyddwr Ystadau, Adnoddau a Llety].

4. Gofynnodd yr Aelodau am ragor o wybodaeth am iechyd a diogelwch ar ffermydd y brifysgol [**GWEITHREDU**: Rheolwr Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd].

3. Adroddiad Blynyddol ar Ryddid i Lefaru a Prevent

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ian Munton, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau i Fyfyrwyr (COU2425-43).

NODWYD

1. Cafodd yr aelodau sicrwydd bod trefniadau newydd ar waith ac yn gweithio'n effeithiol, yn enwedig mewn perthynas â Diogelu. Dylai rhagor o wybodaeth gael ei rhannu drwy'r Pwyllgor Llywodraethu a Diwylliant yn yr adroddiad nesaf i gadarnhau bod y trefniadau'n gadarn [**GWEITHREDU**: Cyfarwyddwr y Gwasanaethau i Fyfyrwyr].

**PENDERFYNWYD**

2. Nodwyd yr adroddiad gan yr aelodau.

4. Adroddiad Blynyddol ar ddatganiadau o fuddiannau a rhoddion

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Julie Archer, Pennaeth Llywodraethu Dros Dro (COU2425-044).

**PENDERFYNWYD**

Nodwyd yr adroddiad gan yr aelodau.

5. Adroddiad Blynyddol ar Foeseg Ymchwil

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Lisa Fisher, Swyddog Uniondeb a Moeseg Ymchwil (COU2425-045).

NODWYD

1. Trafododd yr aelodau sut mae Cydraddoldeb, Amrywioldeb a Chynhwysiant yn cael ei ystyried yn rhan o ymchwil. Dylid ychwanegu hyn at adroddiadau yn y dyfodol [**GWEITHREDU**: Dirprwy Is-Ganghellor, Ymchwil].

**PENDERFYNWYD**

2. Nodwyd yr adroddiad gan yr aelodau.

6. Datganiad Uniondeb Blynyddol

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Lisa Fisher, Swyddog Uniondeb a Moeseg Ymchwil (COU2425-43).

**PENDERFYNWYD**

Nodwyd yr adroddiad gan yr aelodau ac roeddent yn fodlon iddo gael ei gyhoeddi ar wefan y Brifysgol.

7. Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2023-24 a diweddariad cydymffurfio.

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Dr Gwawr Taylor, Dylan Hughes a Lowri Jones (COU2425-43).

NODWYD

1. Nododd yr aelodau ei fod yn adroddiad cydymffurfio cadarnhaol. Trafododd yr aelodau yr ystadegau staffio, yn benodol y gofynion o ran y Gymraeg ar gyfer swyddi, a nodwyd y byddai'r tablau yn cael eu dadansoddi, a byddai datganiad yn cael ei gynnwys i gadarnhau'r cyd-destun.

**PENDERFYNWYD**

2. Cymeradwyodd yr aelodau'r adroddiad, yn amodol ar ddiwygio'r tabl ar y gofynion o ran y Gymraeg.

8. Adroddiad Blynyddol ar AIEC Cyf.

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Rhian Hayward, Prif Swyddog Gweithredol (COU2425-43).

NODWYD

1. Trafododd yr aelodau oruchwyliaeth a chraffu priodol ar is-gwmnïau’r Brifysgol a nodwyd y dylai’r Adolygiad Llywodraethu gynnwys argymhellion pellach ar is-gwmnïau’r brifysgol a’i goruchwyliaeth.

**PENDERFYNWYD**

2. Nodwyd yr adroddiad.

**27. ADRODDIAD AR WEITHGARWCH SEIBERDDIOGELWCH**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Tim Davies, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Gwybodaeth a Jonathan Davies (COU2425-049).

NODWYD

1. Trafododd yr aelodau'r meincnod a nodwyd bod yr amgylchedd gweithredu yn risg uchel ar hyn o bryd. Pwysleisiwyd pwysigrwydd sicrhau prosesau parhad busnes effeithiol er mwyn sicrhau y gallai'r Brifysgol barhau i weithredu pe bai un o'r meysydd risg uchel yn dod yn ffaith.

2. Cadarnhawyd nad oedd y problemau a brofwyd yn ystod Clirio o ganlyniad i seiber-ymosodiad allanol. Mae archwilio mewnol yn cynnal ymchwiliad a bydd y canfyddiadau'n cael eu hystyried gan y pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd maes o law.

**PENDERFYNWYD**

3. Nodwyd yr adroddiad gan yr aelodau.

## 28. YR HEN GOLEG

DERBYNIWYD

Adroddiad gan yr Athro Anwen Jones, Dirprwy Is-Ganghellor Addysg a Phrofiad y Myfyrwyr (COU2425-050).

NODWYD

1. Mae Bwrdd Prosiect yr Hen Goleg wedi'i sefydlu, sy'n cynnwys rhanddeiliaid amrywiol a fydd yn hanfodol wrth i'r prosiect symud i'r cam gweithredol. Mae'r grŵp yn darparu cyswllt ffurfiol rhwng y cam adeiladu a'r cam gweithredol.

2. Mae cynlluniau busnes y gwesty yn cael eu hailystyried, ac mae unigolion allanol yn cael eu gwahodd i rannu syniadau amlinellol er mwyn ffurfio barn ar y gweithredwr neu'r fasnachfraint sy'n gweddu i'r prosiect, cyn iddo symud i broses gaffael.

3. Cafwyd cadarnhad o gyllid ychwanegol gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol; Croeso Cymru; a'r Gronfa Ffyniant Bro; ar gyfer gwaith priffyrdd a gwaith allanol. Mae symud arian o'r Cambria i ystafelloedd gwely yr Hen Goleg wedi galluogi'r prosiect i fynd yn ei flaen heb unrhyw gyllid ychwanegol gan y Brifysgol. Mae bwlch o £1.2m i'w godi o hyd, yn bennaf trwy apêl DARO. Ar hyn o bryd, amcangyfrifir y bydd dyddiad gorffen y gwaith adeiladu yng ngwanwyn 2026.

4. Mae'r posibilrwydd o arafu'r prosiect i ohirio cyfraniadau'r brifysgol wedi'i ystyried, ond mae unrhyw fudd yn cael ei orbwyso gan gynnydd mewn costau. Mae cymhlethdodau yn ymwneud â dylunio, ynghyd â dirywiad yn yr adeiladwaith ac oedi wrth gadarnhau amodau'r Caniatâd Adeilad Rhestredig wedi achosi oddeutu 40 wythnos o oedi a chostau ychwanegol.

**PENDERFYNWYD**

5. Nodwyd yr adroddiad gan yr aelodau.

## 29. RISG SY'N CYNNWYS DIWYGIADAU I ARCHWAETH RISG A MATRICS Y SEFYDLIAD

Derbyniwyd:

Adroddiad gan Helen Eustace, Pennaeth Cynllunio, a Dr Sarah Taylor, Pennaeth Datblygu Strategol (COU2425-051).

NODWYD

1. Bydd y gofrestr risg newydd yn cyd-fynd â strategaeth a chynlluniau'r Brifysgol. Bydd geiriad risgiau hefyd yn cael ei ystyried, i sicrhau eu bod yn addas i'r diben.

2. Mae gan y Brifysgol gofrestr risg, ond mae angen rhagor o waith ar y rheolaethau a'r camau gweithredu. Mae'r fframwaith yn newid, ond nodwyd bod angen cynnal y gofrestr risg bresennol yn y cyfamser.

3. Mae'r polisi risg hefyd yn cael ei adolygu a bydd yn cael ei ystyried i ddechrau gan y pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd.

**PENDERFYNWYD**

4. Dylid neilltuo digon o amser yng nghyfarfod nesaf y Cyngor i drafod y gofrestr risg ddiwygiedig [**GWEITHREDU**: Ysgrifennydd y Brifysgol].

**30. EITEMAU ER GWYBODAETH**

DERBYNIWYD

Derbyniodd yr aelodau adroddiadau ar y canlynol:

1. Digwyddiadau Difrifol y rhoddwyd gwybod i'r Comisiwn Elusennau amdanynt (COU2425-052);

**PENDERFYNWYD**

2. Nododd yr Aelodau, er nad oedd unrhyw ddigwyddiadau difrifol wedi'u hadrodd i'r Comisiwn Elusennau, bod materion yn cael eu hadrodd i Medr fel mesur rhagofalus, ond nid ydynt yn cyrraedd y trothwy ar gyfer adrodd i'r Comisiwn Elusennau.

**31. ADRODDIADAU GAN YR IS-BWYLLGORAU**

**Nodwyd**

Nododd cadeiryddion y Pwyllgorau fod y prif faterion wedi cael eu trafod a'u hystyried yn ystod y cyfarfod.

<u>Y Pwyllgor Llywodraethu a Diwylliant</u>
Roedd gwaith da yn cael ei ddatblygu yng nghyd-destun Cydraddoldeb, Amrywioldeb a Chynhwysiant.

Mae angen gwneud rhagor o waith i sicrhau bod y drafodaeth yn parhau ar lefel strategol yn y pwyllgor, wrth sicrhau bod aelodau'n deall manylion ac effaith newidiadau staffio yn arbennig. Bydd gwaith yn y dyfodol yn cynnwys datblygiadau yn y gweithlu; Dangosyddion Perfformiad Allweddol, a sut mae'r Brifysgol yn ymgorffori'r strategaeth a'r gwerthoedd.

Bydd Cadeiryddion y Pwyllgorau yn cyfarfod ar ôl y Cyngor i fyfyrio ar y drafodaeth a blaengynllunio ar gyfer y cylch nesaf o bwyllgorau.

**32. UNRHYW FATER ARALL, AROLWG O'R CYFARFOD, A MATERION YN Y DYFODOL**

Diolchwyd i'r Is-Ganghellor a'r staff am eu gwaith.